Gwneud penderfyniadau

Arweiniad i deuluoedd, ffrindiau a gofalwyr di-dâl eraill

Helpu pobl sy'n methu â gwneud rhai penderfyniadau drostynt eu hunain

LLYFRYN 2 MEWN CYFRES O 5

2

Mae cyfraith newydd all eich helpu – Deddf Gallu Meddyliol 2005

Gwneud penderfyniadau
Arweiniad i deuluoedd, ffrindiau a gofalwyr di-dâl eraill

Helpu pobl sy'n methu â gwneud rhai penderfyniadau drostynt eu hunain

Mae'r llyfryn hwn yn cynnwys gwybodaeth am Ddeddf Gallu Meddyliol 2005 a sut y bydd yn effeithio arnoch chi. Nid Côd Ymarfer statudol a gyhoeddwyd dan Ddeddf Gallu Meddyliol 2005 mohono ac nid yw'n arweiniad i'r ffordd y bydd y gyfraith yn berthnasol i sefyllfaoedd penodol.

Cynhyrchwyd y ddogfen hon gan:

dca
Adran Materion Cyfansoddiadol
Cyfiawnder, hawliau a democratiaeth
Department for Constitutional Affairs
Justice, rights and democracy

public guardianship office

DH Department of Health

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Ar y cyd â'r Gynghrair Gwneud Penderfyniadau, sy'n cynnwys:

Making Decisions Alliance

AGE Concern

Alzheimer's Society
Dementia care and research

TURNING POINT
turning lives around

Diolchiadau

Cyhoeddwyd y llyfryn hwn gan y Rhaglen Weithredu Gallu Meddyliol. Rhaglen ar y cyd yw hon rhwng yr Adran Materion Cyfansoddiadol, yr Adran Iechyd, y Swyddfa Gwarcheidwadaeth Gyhoeddus a Llywodraeth Cynulliad Cymru. Sefydlwyd y rhaglen gan y llywodraeth er mwyn gweithredu'r drefniadaeth, y broses a'r gweithdrefnau ar gyfer lansio'r Ddeddf Gallu Meddyliol yn 2007.

Rydym yn ddiolchgar iawn i'r tîm o'r Gynghrair Gwneud Penderfyniadau a ysgrifennodd y llyfryn hwn. Hoffem ddiolch yn fwyaf arbennig i Sue Brown, Pennaeth Ymgyrchoedd a Pholisi Cyhoeddus yn Sense, ac Andrew Chidgey, Pennaeth Polisi ac Ymgyrchoedd yn y Gymdeithas Alzheimer, a ysgrifennodd y llyfryn hwn â chymorth Pauline Thompson, Ymgynghorydd Polisi yn Age Concern, a Richard Kramer, Cyfarwyddwr Polisi yn Turning Point.

Rydym hefyd yn ddiolchgar iawn i'r Grŵp Ymgynghorol a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o sefydliadau sy'n gweithio gyda theuluoedd a phobl eraill sy'n gofalu'n ddi-dâl am bobl sy'n methu â gwneud rhai penderfyniadau drostynt eu hunain, neu sy'n cynrychioli'r bobl hyn. Maent wedi gwneud cyfraniad pwysig drwy rannu eu safbwyntiau a'u barn am y llyfryn ac wedi'n cynorthwyo i edrych yn wrthrychol ar ein gwaith.

Cynnwys

1 Cyflwyniad 6
Am y llyfryn hwn 6

2 Pam bod angen imi wybod am y Ddeddf Gallu Meddyliol? 8
Pryd fydd y Ddeddf Gallu Meddyliol yn dechrau gweithio? 9

3 Beth yw gallu meddyliol? 10

4 Beth yw prif egwyddorion y Ddeddf newydd? 11

5 Pwy sy'n penderfynu a yw rhywun yn meddu ar allu ai peidio? 13
Sut allwn i ymwneud ag asesu gallu? 13
Sut allwn i helpu rhywun i wneud penderfyniad drosto'i hun? 14
Pa bryd allai gallu rhywun newid? 14
Beth yw cred resymol? 15

6 Beth fydd yn digwydd os yw rhywun yn methu â gwneud y penderfyniad drosto'i hun? 16
Sut mae penderfynu beth sydd er pennaf les rhywun? 17
Darparu gofal i rywun sydd ag anallu 18
Defnyddio ataliaeth 19

7 Pryd ddylwn i ddisgwyl y bydd rhywun yn ymgynghori â mi? 20

8 Beth yw Atwrneiaeth Barhaol? 22
Sut fydd atwrneiod yn cael eu penodi? 23
Beth mae disgwyl i atwrneiod ei wneud? 24
Atwrneiod lles personol 24
Atwrneiod eiddo a materion ariannol 25
Beth fydd yn digwydd os ydw i eisoes yn atwrnai Atwrneiaeth Barhaus i'r person rydw i'n gofalu amdano? 26

Parhad dros y dudalen

9 Beth yw rôl Dirprwy? 27
Sut mae dod yn ddirprwy? 28
Beth sydd angen imi ei wneud os ydw i'n dderbynnydd i rywun yn barod? 28

10 Beth fydd y Llys Gwarchod yn ei wneud? 29

11 Beth fydd Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus yn ei wneud? 31

12 Beth yw penderfyniadau ymlaen llaw i wrthod triniaeth? 32
Beth yw'r rheolau ynglŷn â phenderfyniadau ymlaen llaw i wrthod triniaeth? 32
Beth yw'r rheolau ynglŷn â phenderfyniadau ymlaen llaw i wrthod triniaeth cynnal bywyd? 33
Beth os oes gan y person rydw i'n gofalu amdano benderfyniad ymlaen llaw (neu 'ewyllys byw') yn barod? 34
Sut mae cael mwy o wybodaeth am benderfyniadau ymlaen llaw? 34

13 Dymuniadau a theimladau a cheisiadau am driniaeth a gofal 35

14 Amddiffyn pobl ag anallu rhag cael eu trin yn wael neu eu hesgeuluso'n fwriadol 36

15 Ymchwil 38

16 Cwynion, anghydfodau a herio penderfyniadau 38

17 Beth os ydw i am wybod mwy am y Ddeddf Gallu Meddyliol? 39

18 Rhai cysylltiadau defnyddiol 40

1. Cyflwyniad

Am y llyfryn hwn

Pwrpas y llyfryn hwn yw rhoi gwybodaeth i chi am gyfraith newydd o'r enw Deddf Gallu Meddyliol a fydd yn dod i rym yn ystod 2007. Mae'r llyfryn ar gyfer unrhyw un sy'n helpu i ofalu am rywun dros 16 oed sy'n methu â gwneud unrhyw benderfyniad, neu sy'n methu â gwneud rhai penderfyniadau. Gallai'r anallu i wneud penderfyniad ddeillio o anaf i'r ymennydd neu strôc, dementia, anabledd dysgu, problemau iechyd meddwl, camddefnyddio alcohol neu gyffuriau, sgîl effeithiau triniaeth feddygol neu unrhyw salwch neu anabledd arall.

Mae'n bosib y bydd y sawl rydych yn gofalu amdano yn methu â gwneud penderfyniadau sy'n ymwneud ag arian, iechyd a materion eraill. Mae'n bosib y bydd angen i chi ei helpu i wneud y penderfyniadau hyn neu mae'n bosib y bydd angen ichi weithredu neu wneud penderfyniadau ar ei ran. Mae'r Ddeddf Gallu Meddyliol yn nodi beth ddylai ddigwydd pan nad yw rhywun yn meddu ar y gallu i wneud penderfyniadau.

Mae'r llyfryn hwn yn egluro:

- beth mae'r Ddeddf yn ei ddweud am allu meddyliol
- sut i benderfynu a yw rhywun yn methu â gwneud penderfyniad
- sut y gallwch chi helpu rhywun i gynllunio ymlaen llaw ar gyfer yr hyn a fyddai'n digwydd pe bai'n methu â gwneud penderfyniadau yn y dyfodol
- beth fydd yn digwydd os bydd rhywun yn methu â gwneud penderfyniad penodol
- sut y gallwch chi helpu rhywun i wneud ei benderfyniadau ei hun
- ar ba sail y byddech chi'n gweithredu ar ran rhywun sydd ag anallu
- rôl teulu a ffrindiau pan fo gweithwyr proffesiynol yn rhan o'r broses
- beth i'w wneud os ydych yn meddwl nad yw rhywun yn cydymffurfio â'r Ddeddf
- sut y bydd y Côd Ymarfer ar gyfer y Ddeddf Gallu Meddyliol yn eich helpu.

Nid yw'r llyfryn hwn yn ymwneud â chadw rhywun mewn ysbyty neu roi triniaeth orfodol dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983. Mae Deddf 1983 yn ymwneud yn bennaf â phobl y canfyddir bod ganddynt broblem iechyd meddwl sy'n golygu bod angen eu cadw mewn ysbyty neu eu trin er mwyn eu hiechyd neu eu diogelwch hwy eu hunain, neu er mwyn amddiffyn pobl eraill.

Dim ond i Gymru a Lloegr y mae'r gyfraith newydd yn berthnasol, ac oni nodir hynny, dim ond i bobl dros 16 oed.

2. Pam bod angen imi wybod am y Ddeddf Gallu Meddyliol?

Bydd y Ddeddf Gallu Meddyliol yn berthnasol i unrhyw un sydd â pherthynas neu gyfaill a allai fod ag anallu.

- Bydd yn egluro'r broses ar gyfer gofalu am bobl a allai fod ag anallu.
- Bydd yn egluro sut y dylid gwneud penderfyniadau ar ran eich perthynas neu'ch cyfaill os yw ef neu hi'n methu â gwneud y penderfyniadau hynny ei hun.
- Mae'n nodi pa bryd y dylid ymgynghori â chi ynglŷn â phenderfyniadau sy'n cael eu gwneud ar ran eich perthynas neu'ch cyfaill.
- Mae'n nodi sut y mae'ch perthynas neu'ch cyfaill yn cael ei amddiffyn pan fo rhywun arall yn gwneud penderfyniadau ar ei ran.

Mae'r Ddeddf yn berthnasol pa bryd bynnag y mae penderfyniadau'n cael eu gwneud ar ran rhywun sy'n methu â gwneud penderfyniad penodol drosto'i hun. Mae hyn yn cynnwys unrhyw asesiad o'i angen am driniaeth, gwasanaethau neu gefnogaeth. Bydd y Ddeddf yn darparu fframwaith cyfreithiol clir ar gyfer delio gyda materion gallu meddyliol. Mae'n cynnwys rhai mesurau diogelu newydd ac yn ymgorffori'r arferion gorau sydd i'w gweld ar hyn o bryd.

Fodd bynnag, mae rhai penderfyniadau nad yw'r Ddeddf Gallu Meddyliol yn caniatáu i unrhyw un eu gwneud ar ran person sydd ag anallu. Mae hyn naill ai oherwydd bod y penderfyniadau neu'r gweithredoedd mor bersonol i'r unigolyn dan sylw neu oherwydd eu bod yn cael eu rheoli gan ddeddfwriaeth arall. Mae hyn yn cynnwys penderfyniadau mewn meysydd fel priodas neu bartneriaeth sifil, ysgariad, perthynas rywiol, mabwysiadu a phleidleisio.

Daw Cod Ymarfer gyda'r Ddeddf a fydd yn darparu arweiniad ynghylch sut y dylai weithio o ddydd i ddydd. Mae'r Cod yn esbonio'n fanylach beth yw nodweddion allweddol y gyfraith newydd a rhai o'r camau ymarferol y bydd angen i'r bobl sy'n defnyddio ac yn dehongli'r gyfraith newydd eu hystyried. Mae gan rai pobl ddyletswydd 'i roi sylw' i'r Cod, yn cynnwys gweithwyr proffesiynol, atwrneiod, dirprwyon, gofalwyr gyflogedig ac

ymchwilwyr. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid iddynt roi sylw i'r Cod a gallu dangos eu bod yn gyfarwydd â'r canllawiau ynddo ac os nad ydynt yn ei ddilyn rhaid iddynt allu rhoi rhesymau teilwng dros beidio â gwneud hynny. Efallai hefyd y gwelwch fod y Cod yn darparu arweiniad defnyddiol yng nghyswllt y Ddeddf. Os ydych hefyd yn atwrnai (gweler rhan 8 y llyfryn hwn) neu'n ddirprwy (gweler rhan 9) ar ran y person yr ydych yn gofalu amdano, bydd gennych chithau ddyletswydd i roi sylw i'r Cod.

Os hoffech gael mwy o fanylion am y Ddeddf Gallu Meddyliol gallwch lawrlwytho'r Côd Ymarfer i lawr o wefan yr AMC yn rhad ac am ddim: **www.dca.gov.uk/legal-policy/mental-capacity/publications.htm**

Ar y wefan hefyd bydd manylion ynglŷn â sut i archebu copi caled o'r Côd Ymarfer.

Pryd fydd y Ddeddf Gallu Meddyliol yn dechrau gweithio?

Ceir 2 gam penodol: Ebrill a Hydref 2007.

Ebrill 2007

- Daw'r gwasanaeth Eiriolwyr Gallu Meddyliol Annibynnol (EGMA) newydd i rym yn Lloegr yn unig (gweler rhan 7).
- Daw'r trosedd newydd o drin yn wael neu esgeulustod bwriadol i rym yng Nghymru ac yn Lloegr (gweler rhan 14).
- Daw Adrannau 1-4 y Ddeddf (yr egwyddorion, asesu gallu a phennu'r buddiannau gorau – gweler rhannau 4 i 6) sy'n hanfodol i'r ffordd y bydd EGMA yn gweithredu i rym hefyd ond dim ond mewn sefyllfaoedd lle y gallai EGMA gyfrannu atynt, ac at ddibenion y trosedd. Ni fydd adrannau 1–4 y Ddeddf yn berthnasol mewn unrhyw sefyllfa arall tan fis Hydref 2007.
- Cyhoeddir y Cod Ymarfer ar gyfer y Ddeddf a dylai'r bobl hynny y mae'n rhaid iddynt roi sylw iddo ei ddilyn mewn sefyllfaoedd lle gallai EGMA fod yn gysylltiedig.

Hydref 2007

- Daw holl rannau eraill y Ddeddf gan gynnwys gwasanaeth EGMA i rym yng Nghymru.

3. Beth yw Gallu Meddyliol?

Os oes gennych allu meddyliol, mae'n golygu eich bod yn gallu gwneud eich penderfyniadau eich hun. Yn ôl y diffiniad cyfreithiol mae rhywun sydd ag anallu yn methu â gwneud un neu fwy o'r pedwar peth hyn:

- Deall gwybodaeth a roddir iddo.
- Cadw'r wybodaeth honno am ddigon o amser i allu gwneud penderfyniad.
- Pwyso a mesur yr wybodaeth sydd ar gael er mwyn gwneud penderfyniad.
- Cyfathrebu ei benderfyniad.

Rydym i gyd yn cael problemau wrth wneud penderfyniadau o bryd i'w gilydd, ond mae'r Ddeddf Gallu Meddyliol yn ymwneud â mwy na hynny. Fe'i lluniwyd yn benodol i ddelio gyda sefyllfaoedd lle na all rhywun wneud penderfyniad oherwydd yr effeithir ar y ffordd y mae eu meddwl neu eu hymennydd yn gweithio gan, er enghraifft, salwch neu anabledd, neu effeithiau cyffuriau neu alcohol

- strôc neu anaf i'r ymennydd
- problem iechyd meddwl
- dementia
- anabledd dysgu
- dryswch, teimlo'n swrth neu fod yn anymwybodol oherwydd salwch neu'r driniaeth ar ei gyfer
- camddefnyddio sylweddau.

Ym mhob un o'r achosion hyn mae'n bosib bod y person yn methu â gwneud penderfyniadau penodol ar adegau penodol. Nid yw'n golygu o reidrwydd ei fod yn methu â gwneud unrhyw benderfyniad o gwbl. Efallai y bydd rhywun sydd ag anabledd dysgu yn methu â gwneud penderfyniadau mawr ond nid yw hyn yn golygu o reidrwydd ei fod yn methu â phenderfynu beth i'w fwyta, beth i'w wisgo a beth i'w wneud bob diwrnod. Efallai y bydd rhywun sydd â phroblemau iechyd meddwl yn methu â gwneud penderfyniadau pan fo'n wael, ond yn gallu eu gwneud pan fo'n well.

4. Beth yw prif egwyddorion y Ddeddf newydd?

Mae llawer o fanylion yn y gyfraith newydd ond mae rhai egwyddorion allweddol y mae'n bwysig inni eu deall.

1 Mae gan bob oedolyn yr hawl i wneud penderfyniadau drosto'i hun oni ellir dangos na all wneud y penderfyniad hwnnw. Golyga hyn na ddylai pobl gymryd yn ganiataol bod rhywun yn methu â gwneud penderfyniad drosto'i hun dim ond oherwydd bod ganddo gyflwr meddygol neu anabledd penodol, neu oherwydd ei oedran neu ei ymddangosiad.

2 Dylai pawb dderbyn y cymorth a'r gefnogaeth sydd eu hangen arnynt i wneud penderfyniad cyn i unrhyw un ddod i'r casgliad na allant wneud eu penderfyniad eu hunain. Golyga hyn bod rhaid i bawb sy'n helpu i ofalu am rywun wneud ymdrech i ddarparu'r holl wybodaeth angenrheidiol mewn ffordd y gall y person ei deall ac yna'i gwneud yn hawdd iddo geisio egluro beth fyddai orau ganddo. Gallai hyn fod drwy wahanol ffyrdd o gyfathrebu; er enghraifft, efallai y byddai'n haws i rywun sydd ag anableddau dysgu ddeall rhywbeth sy'n cael ei gyflwyno gyda lluniau, ffotograffau, fideos neu dapiau. Efallai y bydd angen defnyddio iaith arwyddion i egluro'r wybodaeth i berson byddar.

3 Caniateir i bobl wneud penderfyniad sy'n ymddangos yn un annoeth neu od i ni. Ni allwn ddweud gan ein bod ni'n meddwl bod y penderfyniad yn un annoeth nad yw'r person yn meddu ar y gallu i wneud y penderfyniad. Mae llawer o bobl yn gwneud penderfyniadau annoeth ond nid yw hyn yn unig yn golygu nad ydynt yn gallu gwneud penderfyniadau drostynt eu hunain.

4 Rhaid i unrhyw weithredoedd neu benderfyniadau sy'n cael eu gwneud ar ran rhywun sydd ag anallu gael eu gwneud er pennaf les y person hwnnw, ar ôl ystyried yr hyn a wyddys am ei ddymuniadau (oni bai ei fod wedi gwneud penderfyniad ymlaen llaw perthnasol a dilys i wrthod triniaeth feddygol – gweler rhan 12). Mae'n dal i fod yn bwysig bod y person yn cael ei gynnwys lle bynnag y bo modd yn y broses o wneud y penderfyniad.

5 Egwyddor olaf y Ddeddf yw sicrhau nad yw pobl ag anallu yn cael eu cyfyngu'n ddianghenraid. Felly mae'n rhaid i rywun sy'n gwneud y penderfyniad neu sy'n gweithredu ar ran rhywun ag anallu ystyried a yw hi'n bosib gwneud hyn mewn ffordd a fyddai'n amharu llai ar ryddid a hawliau'r unigolyn sydd ag anallu.

5. Pwy sy'n penderfynu a yw rhywun yn meddu ar allu ai peidio?

Rhaid i unrhyw un sydd mewn sefyllfa lle mae'n bosib y bydd angen iddo wneud penderfyniad ar ran rhywun sydd ag anallu benderfynu a yw'r person hwnnw'n gallu gwneud y penderfyniad ar ei ben ei hun. Mewn sawl achos, chi fydd yn gyfrifol am wneud y penderfyniad hwnnw. Bydd adegau pan fydd angen i weithiwr proffesiynol wneud penderfyniad yn ymwneud â gallu'r person. Yn ôl y Ddeddf, cyn y gallwch chi, neu unrhyw un arall, weithredu ar ran rhywun arall rhaid ichi fod yn 'credu'n rhesymol' nad yw'r person yn meddu ar y gallu i wneud y penderfyniad drosto'i hun.

Gallai unrhyw un – gweithiwr proffesiynol ym maes iechyd neu ofal, gweithiwr proffesiynol arall, perthynas neu ofalwr – orfod penderfynu a yw person yn meddu ar y gallu i wneud penderfyniad penodol.

Sut allwn i ymwneud ag asesu gallu?

Gallech ymwneud ag asesu gallu mewn dwy ffordd:

1. Gallai gweithiwr proffesiynol ymgynghori â chi ynglŷn â gallu'r person. Er enghraifft, efallai bod angen i'r sawl rydych yn gofalu amdano gael llawdriniaeth. Gallai'r meddyg fod yn ansicr a yw'r person yn meddu ar y gallu i gydsynio i gael y llawdriniaeth. Yn aml iawn, gall aelodau o'r teulu a phobl sy'n agos at berson ddarparu gwybodaeth amhrisiadwy er mwyn helpu i asesu gallu person a helpu i egluro pethau mewn ffordd y gall y person ei deall.
2. Efallai y bydd angen ichi asesu gallu'r person oherwydd bod angen ichi wneud rhywbeth er mwyn gofalu amdano. Nid oes disgwyl ichi fod yn arbenigwr mewn asesu gallu, ond mae'n rhaid ichi fod yn 'credu'n rhesymol' nad yw'r person yn meddu ar allu meddyliol.

   Bydd angen ichi ystyried y canlynol:

   - A yw'r person yn deall yn gyffredinol pa benderfyniad y mae angen ei wneud?
   - A oes gan y person ddealltwriaeth gyffredinol o ganlyniadau'r penderfyniad hwn?

- A yw'r person yn gallu pwyso a mesur yr wybodaeth hon a'i defnyddio i wneud penderfyniad?
- A oes unrhyw ffordd y gallech helpu'r person i wneud y penderfyniad drosto'i hun?
- A oes unrhyw ffordd y gallwch ei helpu i gyfathrebu ei benderfyniad neu ei ddymuniadau a'i deimladau?

Bydd angen ichi ystyried hyn ar gyfer penderfyniadau 'mawr' fel ym mhle y dylai rhywun fyw, ac ar gyfer penderfyniadau dydd i ddydd ynglŷn â beth i'w fwyta neu beth i'w wisgo.

Nid yw'r ffaith bod y person yn gwneud penderfyniad gwahanol i'r un y byddech chi wedi ei wneud, neu benderfyniad y byddech chi'n ei ystyried yn un annoeth, yn golygu nad yw'n meddu ar y gallu i wneud y penderfyniad hwnnw.

Sut allwn i helpu rhywun i wneud penderfyniad drosto'i hun?

Ambell waith mae pobl yn ei chael yn anodd i wneud penderfyniad, ond mae'r gallu ganddynt i'w wneud â chymorth. Efallai y bydd angen ichi gymryd ychydig bach mwy o amser i egluro'r wybodaeth. Efallai y bydd ar y person angen cymorth â chyfathrebu neu wybodaeth, fel dehonglydd neu wybodaeth mewn Braille neu luniau. Mewn rhai achosion gallai eiriolydd annibynnol, neu weithiwr proffesiynol arall, fod o gymorth. Er enghraifft, os oes gan y person rydych yn gofalu amdano anawsterau cyfathrebu efallai y byddai'n werth cysylltu â therapydd iaith a lleferydd; neu os canfuwyd bod gan y person gyflwr penodol efallai y byddai'n syniad da gofyn am farn arbenigwr fel seicolegydd neu seiciatrydd, neu nyrs anabledd dysgu cymunedol sy'n gyfarwydd â gofalu am bobl sydd â'r cyflwr hwnnw.

Pa bryd allai gallu rhywun newid?

Mae'r Ddeddf yn cydnabod y gall cyflwr meddyliol rhywun newid ac, o ganlyniad, y bydd gallu rhywun i wneud penderfyniadau hefyd yn newid. Er enghraifft, gallai gallu rhywun sydd â dementia ddirywio, fel nad yw'n meddu ar y gallu i wneud penderfyniadau yr oedd yn arfer gallu eu gwneud drosto'i hun. Gall rhywun sydd ag anabledd dysgu ddysgu sgiliau newydd a chael dealltwriaeth newydd fel ei fod yn dod i allu gwneud penderfyniadau na allai eu gwneud cynt. Efallai y bydd rhywun sydd â phroblemau iechyd

meddwl yn meddu ar y gallu un diwrnod ond ddim y diwrnod canlynol. Felly, ni fydd asesiad o allu yn sefydlog. Bydd angen ichi fod yn ymwybodol o hyn os ydych yn darparu gofal i rywun dros gyfnod o amser.

Beth yw cred resymol?

Mae'r Ddeddf yn nodi bod rhaid ichi fod yn credu'n rhesymol nad yw person yn meddu ar y gallu i wneud y penderfyniad cyn y gallwch weithredu ar ei ran. Mae'r gair rhesymol yn bwysig. Gall gallu newid, a gall rhywun fod â'r gallu i wneud un penderfyniad ond nid un arall. Chi fydd yn penderfynu beth sy'n ffordd resymol o ystyried hyn. Er enghraifft, os oes gan y sawl rydych yn gofalu amdano gyflwr nad yw'n amrywio, efallai y bydd angen ichi wneud penderfyniadau tebyg ar ei ran yn rheolaidd, fel beth y dylai ei wisgo bob diwrnod. Os oes gan rywun gyflwr parhaus neu ddirywiol, fodd bynnag, efallai na fyddai'n rhesymol disgwyl i chi wneud asesiad newydd bob bore cyn helpu'r person i wisgo amdano. Fodd bynnag, dros gyfnod o amser byddai angen ichi gofio y gallai'r person ddysgu sgiliau newydd a datblygu'r gallu i benderfynu beth y dylai ei wisgo.

Enghraifft:

Mae Mary'n gofalu am ei mab, Michael, sy'n 24, sydd ag anabledd dysgu ac sy'n ddall ac yn fyddar. Mae Michael yn ei chael yn anodd iawn i ddeall y gall wneud dewisiadau. Hyd y gŵyr Mary, nid yw'n gallu gwneud penderfyniadau drosto'i hun. Mae Michael yn mynychu gwasanaeth dydd arbenigol bum niwrnod yr wythnos ac mae'r staff yno yn ceisio'i ddysgu sut i wneud penderfyniadau. Mae Mary'n gwybod y bydd Michael, ymhen amser, yn dysgu y gall wneud dewisiadau, a phan fydd yn gwneud hynny bydd angen iddi ei gynorthwyo i wneud ei benderfyniadau ei hun. Mae'n siarad yn rheolaidd â staff y gwasanaeth dydd am hyn.

6. Beth fydd yn digwydd os yw rhywun yn methu â gwneud y penderfyniad drosto'i hun?

Os nad yw person yn meddu ar y gallu i wneud y penderfyniad drosto'i hun, yna bydd rhaid i rywun arall weithredu er ei bennaf les (egwyddor 4). Mae rhai pobl yn cynllunio ymlaen llaw ac mae'n bosib y byddant wedi ysgrifennu penderfyniad ymlaen llaw gan nodi pa fath o driniaeth na fyddent yn dymuno ei chael (gweler rhan 12). Neu mae'n bosib y byddant wedi nodi pa fath o ofal neu driniaeth y maent yn barod i'w derbyn (gweler rhan 13). Neu mae'n bosib y byddant wedi penodi atwrnai (gweler rhan 8) i wneud penderfyniadau penodol ar eu rhan. Ambell waith bydd y Llys Gwarchod yn penodi person i wneud penderfyniadau ar ran rhywun: 'derbynnydd' dan yr hen gyfraith neu 'ddirprwy' dan y Ddeddf newydd (gweler rhannau 9 a 10).

Os nad oes atwrnai neu ddirprwy perthnasol â'r awdurdod angenrheidiol i wneud y penderfyniad dan sylw bydd rhaid i rywun arall benderfynu beth ddylai ddigwydd. Gan ddibynnu ar y penderfyniad penodol, mae'n bosib mai chi, neu weithiwr proffesiynol, fydd yn gorfod gwneud y penderfyniad hwn. Rhaid i bwy bynnag sy'n gwneud y penderfyniad ei wneud er pennaf les y person ac yn unol ag egwyddorion y Ddeddf (gweler rhan 4).

Mae'n bosib y bydd angen penderfyniad ynglŷn ag ystod eang o weithredoedd gofalu megis profion diagnostig ac archwiliadau, gweithdrefnau meddygol a gofal nyrsio a phenderfyniadau yn ymwneud ag ym mhle y dylai rhywun fyw neu pa wasanaethau y mae arno eu hangen. Mae hefyd yn cynnwys gofal, er enghraifft cymorth ag ymolchi, gwisgo, bwyta neu symud o gwmpas sy'n cael ei ddarparu gennych chi neu gan weithwyr proffesiynol.

Wrth ddarparu gofal, rhaid i'r gofalwr neu'r gweithiwr proffesiynol fod wedi:

- asesu nad yw'r person yn gallu gwneud penderfyniadau drosto'i hun
- asesu bod y camau y mae'n eu cymryd er pennaf les y person.

Dylai gweithwyr proffesiynol fel rheol gofnodi sut y maent wedi gwneud yr asesiad hwn yng nghofnod iechyd y person.

Enghraifft:

Mae gan Hirut gyflwr meddygol ac mae ei meddyg yn teimlo bod angen prawf gwaed er mwyn penderfynu beth yw'r driniaeth fwyaf priodol. Cyn y gall y meddyg gymryd sampl o'i gwaed mae angen iddi roi ei chaniatâd. Heb ei chaniatâd, gallai'r weithred fod yn anghyfreithlon. Ond mae gan Hirut anabledd dysgu ac ar ôl trafod y mater gyda hi, mae'r meddyg yn dod i'r casgliad nad yw'n meddu ar y gallu i roi caniatâd, gan nad yw'n deall beth allai ddigwydd pe na bai'n cael y prawf. Mae ei meddyg yn gwybod y gall gymryd gwaed yn gyfreithlon heb ei chaniatâd ar yr amod ei fod yn credu'n rhesymol nad yw Hirut yn meddu ar allu meddyliol a bod cymryd y gwaed er ei phennaf les.

Sut mae penderfynu beth sydd er pennaf les rhywun?

Rhaid i unrhyw beth sy'n cael ei wneud dros neu ar ran rhywun sy'n methu â gwneud y penderfyniad drosto'i hun fod er pennaf les y person hwnnw. Mae'r Ddeddf yn cynnwys rhestr, er nad yw'n rhestr hollgynhwysfawr, o'r pethau y mae angen ichi eu hystyried wrth benderfynu beth sydd er pennaf les rhywun.

Mae'r rhestr yn cynnwys y canlynol:

- A fydd y person yn adennill y gallu i wneud y penderfyniad? Os bydd, a ellid oedi cyn gwneud y penderfyniad er mwyn caniatáu i hyn ddigwydd?
- Rhaid cynnwys y person mewn unrhyw weithred neu benderfyniad i'r graddau y mae hynny'n bosib.
- Os yw'r penderfyniad yn ymwneud â thriniaeth cynnal bywyd, ni ddylai'r penderfyniad fod wedi ei gymell gan deimlad y byddai'n well i'r person pe bai'n marw.
- Dymuniadau a theimladau'r person. Mae hyn yn cynnwys unrhyw safbwyntiau a fynegwyd ganddo yn y gorffennol, a fyddai'n helpu i ddeall beth fyddai ei ddymuniadau a'i deimladau yn awr. Gallai hyn olygu pethau y mae wedi eu hysgrifennu, pethau y mae wedi eu dweud wrth bobl eraill, neu'r ffordd y mae wedi ymddwyn mewn amgylchiadau tebyg yn y gorffennol.

- Unrhyw gredoau neu werthoedd sydd ganddo a allai ddylanwadu ar y penderfyniad. Gallai hyn gynnwys daliadau crefyddol, cefndir diwylliannol neu safbwyntiau moesol.
- Unrhyw ffactorau eraill y byddai'n debygol o'u hystyried pe bai'n gallu gwneud hynny.

I wneud hyn, rhaid i bwy bynnag sy'n asesu beth sydd er pennaf les yr unigolyn ymgynghori â gofalwyr ac unrhyw un â diddordeb yn eu lles ac ystyried eu safbwyntiau, ond bydd hyn yn dibynnu ar y sefyllfa a'r penderfyniad y mae angen ei wneud. Bydd rhaid iddo hefyd ymgynghori ag unrhyw un y mae'r person dan sylw wedi dweud y dylid ymgynghori ag ef, ac unrhyw atwrnai neu ddirprwy a benodwyd. Bydd rhaid i bwy bynnag sy'n gwneud y penderfyniad wedyn bwyso a mesur yr holl ffactorau er mwyn penderfynu beth sydd er pennaf les y person.

Darparu gofal i rywun sydd ag anallu

Efallai y bydd angen i chi asesu beth sydd er pennaf les person pan fyddwch yn gorfod gofalu amdanynt. Mae'r Ddeddf newydd yn cynnig sicrwydd na fyddwch yn atebol am y camau a gymerwch ar yr amod eich bod yn credu'n rhesymol bod gan y person anallu a bod y camau yr ydych yn eu cymryd er pennaf les (egwyddor 4) y person sydd ag anallu.

Dywed y ddeddf newydd hefyd fod yn rhaid i chi ystyried yr opsiynau sy'n cyfyngu llai ar hawliau a rhyddid gweithredu'r unigolyn (egwyddor 5).

Dylech fod yn glir yn eich meddwl pam eich bod wedi gwneud y penderfyniadau neu'r gweithredoedd hyn. Pe gallai anghytundeb godi ynghylch beth sydd er pennaf les yr unigolyn, er enghraifft os yw aelodau'r teulu'n anghytuno ynghylch beth ddylai ddigwydd, efallai yr hoffech gadw cofnod o'ch penderfyniadau a pham ichi wneud y penderfyniadau hynny:

Gŵr ifanc yw Peter, ac roedd yn astudio yn y coleg hyd nes iddo fod mewn damwain ffordd a chael anaf i'w ymennydd. Erbyn hyn nid yw'n gallu gwneud unrhyw benderfyniadau mawr sy'n ymwneud â rheoli arian. Mae'r Llys Gwarchod wedi penodi ei dad fel ei ddirprwy er mwyn iddo allu buddsoddi'r iawndal y mae Peter wedi ei dderbyn. Mae tad Peter yn gwybod bod gan ei fab wrthwynebiad moesol cryf i weithredoedd rhai cwmnïau rhyngwladol. Mae felly'n dewis cronfa fuddsoddi foesegol. Er nad yw'n cytuno â daliadau ei fab, mae'n eu hystyried wrth benderfynu beth sydd er pennaf les Peter.

Defnyddio ataliaeth

Mae'r Ddeddf yn caniatáu ichi gyflawni gweithredoedd gofalu yn gyfreithlon ar yr amod eich bod wedi asesu eu bod er pennaf les y person sydd ag anallu. Er enghraifft, mynd i gartref rhywun heb ganiatâd i'w lanhau iddo neu helpu'r person rydych yn gofalu amdano i ymolchi neu wisgo amdano.

Fodd bynnag, pan fydd sawl dewis gwahanol effeithiol ar gael i chi neu i weithiwr proffesiynol sy'n darparu gofal neu driniaeth, dywed y Ddeddf y dylech ddefnyddio'r un lleiaf caeth. Ambell waith mae angen atal person yn gorfforol. Mae'r Ddeddf yn caniatáu hyn ond dim ond os yw'n angenrheidiol er mwyn atal y person rhag niwed. Er enghraifft, gallech atal y person rydych yn gofalu amdano rhag camu i ganol ffordd brysur, os nad yw'r person hwnnw'n gallu deall pa mor beryglus yw'r traffig.

Fodd bynnag, rhaid i unrhyw ataliaeth fod yn rhesymol ac yn gymesur â'r niwed posib. Gallech atal person rhag mynd allan ar ei ben ei hun gan nad yw'n gallu croesi'r ffordd yn ddiogel, ond byddai'n afresymol ichi ei atal rhag mynd allan o gwbl er mwyn ei amddiffyn rhag traffig ffyrdd gan y gallai hyn ei amddifadu o'i ryddid ac nid yw hynny'n cael ei ganiatáu dan y Ddeddf Gallu Meddyliol.

7. Pryd ddylwn i ddisgwyl y bydd rhywun yn ymgynghori â mi?

Mae'r Ddeddf yn nodi bod angen ymgynghori ag unrhyw un sy'n gofalu am y person neu sydd â diddordeb yn ei les (er enghraifft teulu, ffrindiau a gofalwyr di-dâl) wrth benderfynu ynglŷn â phennaf les. Bydd rhaid i unrhyw berson sy'n gwneud asesiad pennaf les ymgynghori ag unrhyw un sy'n gofalu am y person neu sydd â diddordeb yn ei les. Bydd hyn yn cynnwys aelodau o'r teulu, hyd yn oed os nad ydynt yn darparu llawer o ofal uniongyrchol mwyach, os oes ganddynt ddiddordeb amlwg o hyd yn lles eu perthynas. Gallai hefyd gynnwys ffrindiau agos.

Ambell waith ni fydd yn ymarferol nac yn briodol i'r sawl sy'n gwneud y penderfyniad ymgynghori â theulu a ffrindiau agos, er enghraifft, mae'n bosib na fydd hynny'n bosib mewn argyfwng. Felly, bydd yn dibynnu ar y math o benderfyniad y mae angen ei wneud ac ar yr amgylchiadau fel y maent yn cael eu hasesu gan y sawl sy'n gwneud y penderfyniad. Ond pan fydd hynny'n ymarferol ac yn briodol bydd rhaid ymgynghori â chi.

Ni fydd hyn yn golygu eich bod chi'n gwneud y penderfyniad, ac ni ddylid gofyn ichi roi caniatâd ar ran person arall.

Dylai'r sawl sy'n ymgynghori â chi ofyn i chi beth yn eich barn chi fyddai er pennaf les y person ac a allwch roi unrhyw wybodaeth ynglŷn â dymuniadau, teimladau, gwerthoedd neu ddaliadau'r person. Ni ddylai ofyn i chi beth fyddech chi'n ei wneud mewn amgylchiadau tebyg. Rhaid i'r sawl sy'n penderfynu ynglŷn â phennaf les ystyried yr hyn rydych chi'n ei ddweud ond bydd rhaid iddo geisio mantoli'r hyn rydych chi'n ei ddweud â gwybodaeth arall er mwyn gwneud ei benderfyniad terfynol.

Enghraifft:

Mae John yn dioddef o ddementia. Mae ei feddyg wedi awgrymu y dylai gael llawdriniaeth i dynnu cataract. Nid yw John yn gallu cofio ffeithiau am fwy nag ychydig eiliadau erbyn hyn, ac mae'n aml yn gofyn yr un cwestiynau drosodd a throsodd. Mae'n amlwg nad yw'n gallu gwneud penderfyniad ynglŷn â'r llawdriniaeth. O ganlyniad, nid yw'n meddu ar y gallu i gydsynio nac i wrthod y driniaeth a gynigir, a rhaid gwneud penderfyniad ar sail yr hyn sydd er 'pennaf les' John.

Mae gwraig John ar ei gwyliau ac mae ei fab yn mynd gydag ef i'r apwyntiad. Gan nad yw'r llawdriniaeth yn achos brys, mae'r meddyg yn penderfynu ei bod yn briodol aros hyd nes y gall ymgynghori â gwraig John a gofalwr o'r cartref gofal seibiant yn ogystal â'i fab. Maent yn gallu dweud wrth y meddyg nad yw John wedi petruso o gwbl yn y gorffennol cyn cydsynio i gael anesthetig neu ei roi i gysgu. Mae hefyd yn dal i fwynhau gwylio chwaraeon ar y teledu, ac mae ei gataract yn effeithio cryn dipyn ar ei allu i wneud hyn. Fodd bynnag, mae'n mynd yn anesmwyth iawn os yw'n deffro mewn amgylchedd anghyfarwydd, ac mae gwraig John yn poeni y bydd y profiad cyfan yn peri cryn dipyn o ofid iddo, yn enwedig os yw'n gorfod aros yn yr ysbyty.

Mae'r teulu, y meddyg a'r gweithiwr gofal i gyd yn cytuno y byddai llawdriniaeth cataract yn gwella ansawdd bywyd John yn sylweddol ac mai dyna fyddai er pennaf les iddo. Maent yn cytuno y dylai John gael y llawdriniaeth fel llawdriniaeth dydd, fel bod gwraig John yn gallu bod yno gydag ef drwy'r adeg i dawelu ei ofnau.

Yn y rhan fwyaf o sefyllfaoedd, bydd pobl sydd ag anallu yn cael cefnogaeth gan aelodau o'r teulu neu ffrindiau, neu gan ddirprwy neu atwrnai. Ond, mae'r Ddeddf yn creu gwasanaeth Eiriolwyr Gallu Meddyliol Annibynnol (EGMA) ar gyfer achosion lle nad oes neb ar gael sy'n gallu ac sy'n fodlon i bobl ymgynghori â hwy am benderfyniadau ynghylch triniaeth feddygol ddifrifol neu newidiadau i breswylfan, er enghraifft symud i gartref gofal neu ysbyty. Bydd y gwasanaeth hwn ar gael yn Lloegr o Ebrill 2007 ac o Hydref 2007 yng Nghymru.

Yn Lloegr gall awdurdodau lleol a'r GIG ymestyn y gwasanaeth EGMA i adolygiadau gofal am lety hefyd os ydynt yn fodlon y byddai EGMA yn darparu budd penodol. Gallant hefyd ymestyn y gwasanaeth EGMA i achosion amddiffyn oedolion pa un a oes gan yr unigolyn sydd ag anallu deulu neu ffrindiau neu beidio.

Yng Nghymru, bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn penderfynu yn ystod 2007 a fydd Byrddau Iechyd Lleol ac Awdurdodau Lleol yn gallu ymestyn y gwasanaeth EGMA i adolygiadau gofal ac achosion amddiffyn oedolion.

8. Beth yw Atwrneiaeth Barhaol?

Bydd y Ddeddf newydd yn caniatáu i bobl 18 oed a throsodd ddewis a phenodi rhywun i wneud eu penderfyniadau iechyd, lles a/neu ariannol os byddant yn colli'r gallu i wneud y penderfyniadau hyn drostynt eu hunain yn y dyfodol. Gelwir y person hwn yn atwrnai ac mae'n cael ei benodi drwy ddogfen ffurfiol a elwir yn **Atwrneiaeth Barhaol**.

Mae dau wahanol fath o Atwrneiaeth Barhaol:

1 **Mae Atwrneiaeth Barhaol** lles personol ar gyfer penderfyniadau sy'n ymwneud ag iechyd a lles personol, er enghraifft lle i fyw, gofal o ddydd i ddydd neu gael triniaeth feddygol.

2 **Mae Atwrneiaeth Barhaol** eiddo a materion ariannol ar gyfer penderfyniadau sy'n ymwneud ag arian, er enghraifft gwerthu tŷ'r rhoddwr neu reoli ei gyfrif banc.

Cyfeirir at y sawl sy'n gwneud Atwrneiaeth Barhaol fel y **rhoddwr**.

Cyfeirir at y person/bobl a ddewisir gan y rhoddwr i weithredu ar ei ran fel yr **atwrnai/atwrneiod**.

Penodir atwrnai i wneud penderfyniadau fel pe baent hwy yn esgidiau'r rhoddwr. Mae'n wahanol iawn i gael gweithwyr proffesiynol yn ymgynghori â chi, oherwydd yn y diwedd, lle bo'r Atwrneiaeth Barhaol wedi rhoi'r pŵer i'r atwrnai, yr atwrnai fydd yn gwneud y penderfyniadau hynny. Rhaid i atwrneiod weithredu er pennaf les y rhoddwr **(gweler rhan 6)** a dilyn y Côd Ymarfer **(gweler rhan 2)**.

Bydd y rhoddwr yn gallu dewis:

- yr un person i fod yn atwrnai lles personol ac yn atwrnai eiddo a materion ariannol iddo
- gwahanol bobl i wneud gwahanol benderfyniadau yn ymwneud â'i les personol neu ei arian
- atwrnai lles personol yn unig
- atwrnai eiddo a materion ariannol yn unig.

Bydd y rhoddwr hefyd yn gallu nodi ai dim ond rhai penderfyniadau y bydd ei atwrnai yn gallu'u gwneud ar ei ran. Er enghraifft, efallai y bydd y rhoddwr am i'r atwrnai wneud penderfyniadau lles megis ble y dylai fyw ac am ei ofal, ond nid penderfyniadau meddygol megis a ddylai gael llawdriniaeth neu beidio.

Sut fydd atwrneiod yn cael eu penodi?

Pan fydd y Ddeddf Gallu Meddyliol yn dod i rym, os yw'r sawl rydych yn gofalu amdano yn meddu ar y gallu i ddeall beth mae penodi atwrnai'n ei olygu, gall ddewis un neu fwy o bobl i wneud penderfyniadau ar ei ran yn y dyfodol, pe bai'n methu â gwneud hynny drosto'i hun. Fel perthynas, ffrind neu ofalwr di-dâl arall, gallwch gael eich penodi'n atwrnai.

Er mwyn penodi atwrnai neu atwrneiod bydd y person yn gallu cael ffurflen arbennig gan Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus (gweler rhan 11), neu mewn siop deunydd ysgrifennu sy'n darparu pecynnau cyfreithiol. Bydd y ffurflen yn cynnwys canllawiau ar gyfer ei llenwi a bydd hefyd yn egluro sut y gall y rhoddwr osod cyfyngiadau ar yr hyn y gall yr atwrnai ei wneud.

Y peth pwysicaf yw bod rhaid i'r rhoddwr allu deall beth mae penodi atwrnai'n ei olygu a gallu dewis drosto'i hun pwy mae am ei gael i wneud penderfyniadau drosto yn y dyfodol. Wrth lenwi'r ffurflen bydd hefyd yn gallu dewis pwy mae am iddo gael ei hysbysu pan fo'r Atwrneiaeth Barhaol yn cael ei chofrestru. Nid oes rhaid i'r person hwn fod yn aelod o'r teulu; y rhoddwr fydd yn dewis. Bydd rhaid arwyddo tystysgrif hefyd i ddweud bod y rhoddwr wedi deall beth yr oedd yn ei wneud wrth arwyddo'r ffurflen, na fu unrhyw dwyll ac na roddwyd unrhyw bwysau amhriodol arno wrth wneud yr Atwrneiaeth Barhaol.

Os nad yw'r person rydych yn gofalu amdano'n deall mwyach beth mae penodi atwrnai'n ei olygu yna mae'n bosib y bydd angen ichi ystyried gwneud cais i'r Llys Gwarchod er mwyn cael caniatâd i wneud penderfyniadau ar ei ran fel dirprwy (gweler rhan 9).

Beth mae disgwyl i atwrneiod ei wneud?

Cyn y gellir defnyddio Atwrneiaeth Barhaol, rhaid iddi gael ei chofrestru yn Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus. Gallai'r rhoddwr ddewis ei chofrestru cyn gynted ag y mae'r ffurflenni i gyd wedi cael eu llenwi, neu gall y rhoddwr adael yr Atwrneiaeth Barhaol heb ei chofrestru hyd nes y bo'i hangen, a phryd hynny rhaid i'r atwrnai ei chofrestru. Pan fydd yr Atwrneiaeth Barhaol yn cael ei chofrestru, rhaid hysbysu'r bobl a ddewiswyd gan y rhoddwr ac a restrwyd ar y ffurflen. Os yw'r Atwrneiaeth Barhaol ar gyfer penderfyniadau iechyd a lles, efallai y byddai'r rhoddwr yn hoffi ystyried cofrestru'n gynnar fel bod modd defnyddio'r Atwrneiaeth Barhaol mewn argyfwng. Codir ffi am gofrestru.

Mae cytuno i fod yn atwrnai yn golygu y byddwch yn derbyn rôl bwysig oherwydd bydd yr atwrnai'n gallu gwneud penderfyniadau ar ran y rhoddwr. Bydd gan bob atwrnai ddyletswydd i ofalu a rhaid iddo ddilyn yr egwyddorion sydd yn y Ddeddf (sy'n cael eu hegluro yn rhan 4). Bydd ganddynt hefyd ddyletswydd gyfreithiol i ddilyn yr hyn sydd yn y Côd Ymarfer (gweler rhan 2) sydd wedi ei ysgrifennu er mwyn helpu gweithwyr proffesiynol, gofalwyr cyflogedig, dirprwyon ac atwrneiod i wybod sut y bydd y Ddeddf yn gweithio yn ymarferol. Rhaid i bob penderfyniad neu weithred sy'n cael ei gwneud gan atwrneiod fod er pennaf lles y rhoddwr. Os penodir mwy nag un atwrnai ar y cyd bydd angen iddynt ymgynghori â'i gilydd er mwyn penderfynu beth sydd er pennaf les y rhoddwr.

Atwrneiod lles personol

Dim ond pan fydd yr Atwrneiaeth Barhaol wedi ei chofrestru a dim ond pan nad yw'r rhoddwr yn gallu gwneud penderfyniad penodol yn ymwneud ag iechyd neu les drosto'i hyn y gall atwrnai lles personol ddefnyddio'r Atwrneiaeth Barhaol. Bydd y penderfyniadau y gall atwrnai eu gwneud yn dibynnu ar unrhyw gyfyngiadau y mae'r rhoddwr wedi eu cynnwys ar ffurflen yr Atwrneiaeth Barhaol. Os yw'r rhoddwr eisiau i'r atwrnai allu gwneud penderfyniadau ynglŷn â thriniaeth cynnal bywyd bydd angen iddo ddarparu'n benodol ar gyfer hyn ar ffurflen yr Atwrneiaeth Barhaol. Ni all yr atwrnai wneud penderfyniadau ariannol oni bai ei fod hefyd wedi ei benodi'n atwrnai ariannol.

Enghraifft:

Mae Jean yng nghyfnod cynnar clefyd Alzheimer. Mae'n penodi ei merch fel atwrnai lles i wneud unrhyw benderfyniadau lles personol y mae'n colli'r gallu i'w gwneud ei hun. Mae'n siarad â'i merch am bethau sy'n bwysig iddi hi fel ei dymuniad i aros yn agos at ei ffrindiau, neu i allu mynd i gartref gofal sy'n caniatáu anifeiliaid anwes. Os bydd ei merch rywbryd neu'i gilydd yn gorfod gwneud penderfyniadau gan ddefnyddio'r Atwrneiaeth Barhaol sydd wedi ei chofrestru, ynglŷn ag ym mhle y dylai ei mam fyw, gall ystyried y pethau a ddywedodd ei mam wrth feddwl beth sydd er ei phennaf les.

Atwrneiod eiddo a materion ariannol

Gellid defnyddio Atwrneiaeth Barhaol unrhyw bryd ar ôl iddi gael ei chofrestru, oni bai fod y rhoddwr wedi dweud na ddylid ei defnyddio tra bo'r gallu ganddo ef i reoli ei faterion ariannol ei hun. Mae rhai pobl eisiau i'w hatwrneiod gymryd y gwaith o reoli'u materion ariannol drosodd er eu bod yn dal i allu gwneud hynny eu hunain. Er enghraifft, mae'n bosib eu bod am i'w hatwrnai ymgymryd â'r gwaith o reoli eu cyfrifon banc a delio gyda'u biliau gan nad ydynt yn hoffi delio gydag arian. Efallai na fydd eraill am i'w Hatwrneiaeth Barhaol materion ariannol gael ei defnyddio oni bai eu bod yn methu â gwneud penderfyniadau drostynt eu hunain.

Os nad yw'r rhoddwr wedi gosod unrhyw gyfyngiadau ar y ffurflen bydd yr atwrnai'n gallu arwyddo sieciau, gweithredu cyfrifon banc, gwneud buddsoddiadau a phrynu a gwerthu eiddo er pennaf les y person. Bydd rhaid i'r atwrnai gadw arian y person ar wahân i'w arian ei hun, a bydd rhaid iddo gyflwyno cyfrifon manwl os bydd Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus yn gofyn iddo wneud hynny (gweler rhan 11). Ni chaiff atwrneiod wneud unrhyw benderfyniadau am iechyd a lles onid ydynt hefyd yn atwrnai lles personol.

Beth fydd yn digwydd os ydw i eisoes yn atwrnai Atwrneiaeth Barhaus i'r person rydw i'n gofalu amdano?

Mae system yn barod sy'n galluogi pobl i benodi atwrneiod ar gyfer materion ariannol, sef yr Atwrneiaeth Barhaus. Bydd Atwrneiaethau Parhaus sydd wedi eu gwneud yn barod yn dal i fod yn ddilys a gellir eu cofrestru ar ôl i'r Ddeddf Gallu Meddyliol ddod i rym er na fydd modd gwneud rhai newydd ar ôl hynny.

Os ydych eisoes yn atwrnai, ac os yw'r Atwrneiaeth Barhaus wedi ei chofrestru gan nad yw'r rhoddwr yn gallu gwneud ei benderfyniadau ariannol ei hun mwyach, yna ni fydd angen ichi wneud dim. Efallai y bydd y Côd Ymarfer (gweler rhan 2) ac egwyddorion y Ddeddf Gallu Meddyliol **(gweler rhan 4)** o gymorth ichi. Disgwylir ichi weithredu er pennaf les y rhoddwr yn barod.

Os nad yw'r Atwrneiaeth Barhaus wedi ei chofrestru gan fod y rhoddwr yn dal i allu gwneud ei benderfyniadau ei hun, yna ar ôl i'r Ddeddf ddod i rym gall rhoddwr wneud y canlynol:

- gwneud i ffwrdd â'r Atwrneiaeth Barhaus a gwneud Atwrneiaeth Barhaol eiddo a materion ariannol
- cadw'r Atwrneiaeth Barhaus ar gyfer penderfyniadau ariannol
- yn y naill achos neu'r llall, gwneud Atwrneiaeth Barhaol ar gyfer penderfyniadau lles os yw'n dymuno.

Os yw rhoddwr yn penderfynu cadw'r Atwrneiaeth Barhaus ar gyfer ei benderfyniadau ariannol gall yr atwrnai barhau i'w defnyddio heb ei chofrestru oni bai bod y rhoddwr wedi nodi mai dim ond os yw ef neu hi'n methu â gwneud penderfyniadau drosto'i hun y dylid ei defnyddio. Os bydd rywbryd yn y dyfodol yn methu â gwneud penderfyniadau ariannol drosto'i hun yna bydd angen i'r atwrnai gofrestru'r Atwrneiaeth Barhaus bryd hynny. Ni fydd unrhyw newid i'r gweithdrefnau sy'n berthnasol i Atwrneiaethau Parhaus.

9. Beth yw rôl Dirprwy?

Mae dirprwyon yn cymryd lle'r system bresennol o dderbynyddion sy'n cael eu penodi gan y Llys i ddelio gydag eiddo a materion ariannol rhywun sydd ag anallu, ond yn y dyfodol gallai dirprwyon gael eu penodi hefyd i ddelio gyda phenderfyniadau lles personol.

Os oes angen rhoi awdurdod cyson i rywun ddelio gyda chyfres o benderfyniadau rheolaidd, gall y Llys Gwarchod (gweler rhan 10) benodi dirprwy i weithredu a gwneud penderfyniadau yn ymwneud ag eiddo a lles neu i wneud penderfyniadau lles personol ar ran rhywun sydd ag anallu. Bydd y gorchymyn llys gan y Llys Gwarchod yn nodi pa bwerau y dylai dirprwy eu cael. Bydd y llys yn gwneud y pwerau hyn mor gyfyngedig o ran cwmpas a hyd ag sy'n bosib. Gall wneud gorchymyn sydd ynddo'i hun yn ymwneud â phenderfyniad unwaith ac am byth y mae angen ei wneud. Fel rheol penodir dirprwyon pan fo angen cyfres o benderfyniadau rheolaidd.

Mae cael eich penodi'n ddirprwy'n golygu eich bod yn derbyn rôl bwysig, gan fod y dirprwy'n sefyll yn esgidiau'r person sy'n methu â gwneud y penderfyniad(au) drosto'i hun. Mae'r dirprwy'n gwneud unrhyw benderfyniadau (ynglŷn â materion a nodwyd yn y gorchymyn llys) ar ran y person sy'n methu â gwneud y penderfyniad drosto'i hun. Bydd gan ddirprwyon ddyletswydd gyfreithiol i ddilyn egwyddorion y Ddeddf a byddant yn gweithredu bob amser er pennaf les y person. Rhaid iddynt hefyd ddilyn y Côd Ymarfer (gweler rhan 2).

Bydd dirprwyon ariannol yn debyg iawn i'r derbynyddion presennol sy'n gofalu am faterion ariannol pobl sydd ag anallu ac y mae angen iddynt wneud ystod o benderfyniadau ariannol. Mae dirprwyon lles yn newydd ac fe'u penodir os bydd angen gwneud cyfres o benderfyniadau iechyd neu les cysylltiedig, fel nad yw un gorchymyn yn briodol, neu os oes anghydfodau difrifol ynghylch beth sydd er pennaf les yr unigolyn.

Sut mae dod yn ddirprwy?

Os yw'r person rydych yn gofalu amdano heb benodi atwrnai, neu os yw'n methu â phenodi atwrnai, a bod penderfyniadau penodol y mae angen eu gwneud ar ei ran ond na ellir eu gwneud ac eithrio drwy ddod â'r mater i'r llys, yna bydd angen ichi wneud cais i'r Llys Gwarchod (gweler rhan 10). Gellir cael ffurflen gais gan Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus. Mae'n rhaid ichi fod yn 18 oed neu drosodd i fod yn ddirprwy. Bydd y Llys yn penderfynu a yw'n credu eich bod yn addas i fod yn ddirprwy. Bydd y Llys hefyd yn penderfynu a oes angen dirprwy, ynteu a yw'n ddigon iddo wneud gorchymyn ar gyfer y penderfyniad penodol y mae angen ei wneud.

Er bod rhaid ichi wneud cais i'r Llys Gwarchod er mwyn cael bod yn ddirprwy, fel rheol gellir penderfynu ynglŷn â'r cais ar sail yr wybodaeth a roddwyd yn y ffurflenni, heb fod angen gwrandawiad ffurfiol.

Mae Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus (gweler rhan 11) yn gyfrifol am oruchwylio a chefnogi dirprwyon. Bydd ffioedd ar gyfer costau'r broses o wneud cais ac ar gyfer goruchwyliaeth gyson.

Beth sydd angen imi ei wneud os ydw i'n dderbynnydd i rywun yn barod?

Os ydych yn dderbynnydd ar hyn o bryd, pan fydd y Ddeddf newydd yn dod i rym, byddwch yn parhau i weithredu fel cynt ond cyfeirir atoch fel dirprwy ar gyfer materion ariannol. Mae rhifyn Awst 2006 o Reaching Out ar gyfer derbynyddion yn egluro'r newidiadau. Mae'r rhifyn hwn o Reaching Out i'w weld yn **www.guardianship.gov.uk/formsdocuments/publications.htm**. Anfonir rhagor o wybodaeth at dderbynyddion yn nes at Hydref 2007. Os bydd angen penodi dirprwy lles ar gyfer y person rydych yn gofalu amdano ar unrhyw adeg yn nes ymlaen bydd angen ichi wneud cais ar wahân am hynny. Er mwyn cael mwy o wybodaeth ewch i **www.guardianship.gov.uk**

10. Beth fydd y Llys Gwarchod newydd yn ei wneud?

Bydd y Llys Gwarchod newydd yn gallu gwneud penderfyniadau sy'n ymwneud ag eiddo a materion ariannol ac â materion lles personol. Bydd swyddfa'r Uwch Farnwr yn Llundain a bydd yn cael ei gynorthwyo gan farnwyr sydd wedi derbyn hyfforddiant arbennig mewn lleoliadau penodol yng Nghymru a Lloegr. Bydd hyn yn golygu y gall unrhyw wrandawiadau fod yn nes at y bobl y maent yn ymwneud â hwy. Bydd y Llys yn gwneud penderfyniadau terfynol ynglŷn â gallu os oes ansicrwydd a yw person yn gallu gwneud y penderfyniad dan sylw. Bydd yn delio gyda phenderfyniadau sy'n ymwneud ag arian ac eiddo person sydd ag anallu a rhai penderfyniadau sy'n ymwneud â thriniaethau meddygol difrifol, gan amlaf lle bo anghydfod ynglŷn â phennaf les. Fel rheol ni fydd y Llys yn clywed achosion lles personol oni bai bod y partïon wedi methu â dod i gytundeb ynglŷn â'r hyn sydd er pennaf les y person mewn ffordd arall (gweler rhan 16).

Yn ychwanegol at hyn bydd yn gallu:

- gwneud gorchmynion unwaith ac am byth er mwyn delio gyda sefyllfaoedd nad ydynt yn codi'n aml. Er enghraifft, lle bo anghydfod difrifol ynglŷn ag ym mhle y dylai'r person fyw nad yw wedi ei ddatrys mewn ffordd arall
- penodi dirprwyon (gweler rhan 9)
- delio gyda cheisiadau i wrthwynebu cofrestru Atwrneiaethau Parhaus a Pharhaol. Bydd yn rhoi cyfarwyddiadau i'r atwrnai neu'r dirprwy os bydd angen
- diddymu pwerau atwrnai neu ddirprwy nad yw wedi bod yn gweithredu er pennaf les y person a sefydlu trefniadau amgen.

Er nad yw'r Ddeddf yn ymwneud â phlant yn gyffredinol bydd y Llys yn gallu gwneud penderfyniadau yn ymwneud ag eiddo a materion ariannol plentyn dan 16 oed os yw'n debygol y byddant angen i rywun wneud penderfyniadau ar eu rhan ynglŷn â'u materion ariannol o hyd ar ôl iddynt gyrraedd eu 18 oed. Mewn rhai sefyllfaoedd, gallai'r Llys felly wneud gorchymyn neu benodi dirprwy ar gyfer plentyn.

Er y bydd llawer o wrandawiadau Llys yn cael eu cynnal mewn lleoliadau rhanbarthol penodol dylid cyflwyno pob cais yn y lle cyntaf i Gofrestrfa Ganolog y Llys Gwarchod yn Archway, Gogledd Llundain. Bydd y Gofrestrfa Ganolog yn delio gydag unrhyw gyfarwyddiadau interim brys sydd eu hangen a bydd wedyn, os oes angen, yn cyfeirio'r mater i'w glywed mewn llys rhanbarthol os yw hyn er pennaf les yr unigolyn dan sylw.

Bydd angen i rai pobl gael caniatâd y Llys i wneud cais. Nodir y rheolau ynglŷn â hyn yn y ffurflenni cais a'r canllawiau.

Bydd mwy o wybodaeth ynglŷn â sut y gallwch fynd i'r Llys Gwarchod a phwy sydd angen gofyn caniatâd i gael achos llys ar gael yn 2007. Bydd ar gael ar ffurf taflen ac ar wefan Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus. Canolfan Cyswllt Cwsmeriaid Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus fydd y pwynt cyswllt cyntaf bob amser ac yn gallu rhoi cyngor (gweler rhan 11).

11. Beth fydd Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus yn ei wneud?

Mae'r Ddeddf yn creu swydd gyhoeddus newydd – **Gwarcheidwad Cyhoeddus**. Bydd y Gwarcheidwad Cyhoeddus yn cael ei gefnogi gan Swyddfa newydd, sef **Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus**. Bydd yn gyfrifol am y gofrestr Atwrneiaethau Parhaol, Atwrneiaethau Parhaus a dirprwyon. Bydd yn goruchwylio dirprwyon ac yn trefnu i ymwelwyr y Llys Gwarchod ymweld â chi, os ydych yn ddirprwy, a'r person rydych yn gofalu amdano, o bryd i'w gilydd. Bydd yn ymchwilio i achosion lle mynegir unrhyw bryder ynglŷn â'r ffordd y mae atwrneiod a dirprwyon yn gweithredu.

Bydd Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus yn cael ei monitro gan Fwrdd y Gwarcheidwad Cyhoeddus a bydd yn ofynnol iddi gyflwyno adroddiad blynyddol ar ei gwaith drwy gydol y flwyddyn.

O Hydref 2007 ymlaen, bydd Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus yn darparu Canolfan Cyswllt Cwsmeriaid a fydd yn bwynt cyswllt cyntaf ar gyfer unrhyw un y mae angen cyngor neu wybodaeth arnynt am y Ddeddf Gallu Meddyliol, dod yn ddirprwy, pan allai gorchymyn unigol fod yn briodol, neu wneud Atwrneiaeth Barhaol neu gofrestru Atwrneiaeth Barhaol neu Atwrneiaeth Barhaus.

12. Beth yw penderfyniadau ymlaen llaw i wrthod triniaeth?

Mae **penderfyniad ymlaen llaw i wrthod triniaeth** yn caniatáu i bobl 18 oed neu drosodd nodi pa fathau penodol o driniaethau na fyddent yn dymuno eu cael, pe baent yn methu â gwneud penderfyniadau drostynt eu hunain yn y dyfodol. Gall penderfyniad ymlaen llaw ymwneud ag unrhyw driniaeth nad yw person yn dymuno ei derbyn ar adeg pan fo ganddo anallu, hyd yn oed os gallai gwrthod y driniaeth arwain at ei farwolaeth. Nid oes rhaid i benderfyniad ymlaen llaw fod yn ysgrifenedig, ac eithrio penderfyniadau sy'n ymwneud â thriniaeth diwedd oes (gweler isod) ond mae'n ddefnyddiol os ydyw.

Mae gan rai pobl farn bendant ynglŷn â pha fathau o driniaethau nad ydynt yn dymuno eu cael ac na fyddent yn cydsynio i'w derbyn ac mae penderfyniad ymlaen llaw yn caniatáu iddynt fynegi'r safbwyntiau hyn yn glir, cyn iddynt golli'r gallu. Os yw rhywun wedi gwneud penderfyniad ymlaen llaw yn gwrthod triniaeth feddygol benodol, a bod y penderfyniad ymlaen llaw hwnnw'n **ddilys** ac yn **berthnasol**, yna dylid cydymffurfio â'r penderfyniad ac ni ddylid darparu'r driniaeth.

Mae penderfyniadau ymlaen llaw, sydd hefyd yn cael eu galw'n gyfarwyddebau ymlaen llaw neu'n 'ewyllysiau byw' ar hyn o bryd, yn bosib dan gyfraith gwlad, ac mae'r Ddeddf Gallu Meddyliol yn eu rhoi ar sylfaen statudol a hefyd yn egluro beth sydd ei angen yn ôl y gyfraith er mwyn i benderfyniad ymlaen llaw fod yn **ddilys** ac yn **berthnasol**. Yn ychwanegol at hyn, mae'r Ddeddf Gallu Meddyliol yn cyflwyno mesurau diogelu newydd er mwyn sicrhau nad yw penderfyniadau ymlaen llaw'n cael eu camddefnyddio.

Dyma faes cymhleth ac os bydd angen rhagor o fanylion arnoch, dylech gyfeirio at God Ymarfer y Ddeddf Gallu Meddyliol neu gael cyngor arbenigol.

Beth yw'r rheolau ynglŷn â phenderfyniadau ymlaen llaw i wrthod triniaeth?

Mae'r Ddeddf Gallu Meddyliol yn cyflwyno nifer o ofynion ar gyfer gwneud penderfyniad ymlaen llaw. Rhaid i feddyg sy'n gwneud penderfyniad ynglŷn â thriniaeth fod yn fodlon bod y penderfyniad ymlaen llaw'n bodoli,

ei fod yn ddilys a'i fod yn berthnasol i'r driniaeth benodol dan sylw.

Rhaid cydymffurfio â phenderfyniad ymlaen llaw **dilys** a **pherthnasol** a rhaid rhoi blaenoriaeth iddo dros unrhyw farn sydd gan unrhyw un arall ynglŷn â'r hyn sydd er pennaf les y person dan sylw, hyd yn oed os mai'r canlyniad yw bod y penderfyniad yn dod â bywyd y person i ben.

Mae'r rhestr isod yn cynnwys crynodeb byr o rai o'r prif ofynion ar gyfer penderfyniadau ymlaen llaw (Os hoffech gael mwy o fanylion darllenwch y Côd Ymarfer):

- Rhaid iddo fod yn **ddilys**. Rhaid i'r person fod wedi meddu ar y gallu i wneud y penderfyniad ymlaen llaw ac ni ddylai'r person fod wedi ei dynnu'n ôl, ei ddirymu drwy wneud Atwrneiaeth Barhaol sy'n ymwneud â'r driniaeth yn y penderfyniad ymlaen llaw, na gweithredu mewn ffordd sy'n amlwg yn anghyson â'r penderfyniad ymlaen llaw.
- Rhaid iddo fod yn **berthnasol**. Dylai nodi'n glir pa driniaeth sy'n cael ei gwrthod (nid oes rhaid defnyddio termau meddygol manwl) a dylai egluro at ba amgylchiadau y mae'r gwrthodiad yn cyfeirio.

Beth yw'r rheolau ynglŷn â phenderfyniadau ymlaen llaw i wrthod triniaeth cynnal bywyd?

Mae gofynion arbennig ar gyfer gwneud penderfyniadau ymlaen llaw i wrthod triniaeth cynnal bywyd (unrhyw driniaeth sydd ei hangen i'ch cadw'n fyw ac y gallech farw pe na baech yn ei chael). Rhaid i benderfyniadau ymlaen llaw o'r fath fod yn ysgrifenedig, rhaid iddynt fod wedi eu harwyddo a'u hardystio a rhaid i'r person sy'n gwneud y penderfyniad ymlaen llaw fod wedi datgan bod y penderfyniad i fod yn berthnasol hyd yn oed os yw bywyd mewn perygl. Os yw'r datganiad ar wahân i'r penderfyniad ymlaen llaw rhaid i hwn hefyd gael ei arwyddo a'i ardystio. Os bydd rhywun yn gwneud penderfyniad ymlaen llaw dylid adolygu'r penderfyniad o bryd i'w gilydd er mwyn sicrhau ei fod yn dal i adlewyrchu safbwyntiau'r person.

Nid yw penderfyniadau ymlaen llaw yn caniatáu i bobl wrthod cael eu cadw mewn ysbyty neu dderbyn triniaeth heb ganiatâd dan y Ddeddf Iechyd Meddwl. Y rheswm am hyn yw na all pobl sydd â gallu i gydsynio hyd yn oed wrthod cael eu cadw mewn ysbyty neu dderbyn triniaeth o'r fath.

Ni ellir defnyddio penderfyniad ymlaen llaw i ofyn am driniaeth feddygol – y cyfan y gall ei wneud yw dweud pa fathau o driniaethau y byddai rhywun yn eu gwrthod. Ni all rhywun ei ddefnyddio ychwaith i ofyn i rywun arall ddod â'i fywyd i ben.

Os hoffech gael mwy o wybodaeth ynglŷn â phenderfyniadau ymlaen llaw byddai'n syniad da ichi ddarllen y Côd Ymarfer **(gweler rhan 2)**.

Beth os oes gan y person rydw i'n gofalu amdano benderfyniad ymlaen llaw (neu 'ewyllys byw' yn barod)?

Os oes gan y person rydych yn gofalu amdano benderfyniad ymlaen llaw yn barod, yna mae'n bosib y bydd yn dal i fod yn ddilys pan ddaw'r Ddeddf i rym. Dylech wneud yn siŵr ei fod yn cydymffurfio â'r rheolau newydd yn enwedig os yw'n delio gyda thriniaeth cynnal bywyd. Bydd rhagor o arweiniad ar gael yn www.dh.gov.uk/consent

Sut mae cael mwy o wybodaeth am benderfyniadau ymlaen llaw?

Gallwch ddarllen adrannau perthnasol y Cod Ymarfer ac mae nifer o fudiadau a grwpiau cefnogi cleifion yn darparu gwybodaeth am wneud penderfyniad ymlaen llaw. Mae eu manylion cysylltu ar ddiwedd y llyfryn hwn.

Enghraifft:

Nyrs wedi ymddeol yw Helen ac mae'n poeni os bydd yn datblygu'r clefyd Alzheimer y gallai rhywun roi triniaeth iddi yn ystod cyfnod diweddarach y clefyd na fyddai hi eisiau ei derbyn. Er enghraifft, os bydd yn cyrraedd cyfnod diweddarach Alzheimer mae wedi penderfynu nad yw'n dymuno derbyn bwyd a diod artiffisial drwy diwbiau i'w stumog. Mae felly'n ysgrifennu penderfyniad ymlaen llaw yn nodi nad yw'n dymuno derbyn bwyd a diod artiffisial yn ystod cyfnod diweddarach clefyd Alzheimer hyd yn oed os yw hynny'n rhoi ei bywyd mewn perygl. Oherwydd gofynion y Ddeddf mae hi hefyd yn ysgrifennu ei bod am i'r penderfyniad fod yn berthnasol i driniaeth cynnal bywyd, yn arwyddo'i henw wrth y datganiad ac yn gofyn i rywun arall fod yn dyst i'w llofnod.

13. Dymuniadau a theimladau a cheisiadau am driniaeth a gofal

Dan y Ddeddf Gallu Meddyliol, mae gan deuluoedd, gofalwyr a gweithwyr proffesiynol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol gyfrifoldeb i roi gofal neu driniaeth i rywun sydd ag anallu sy'n adlewyrchu eu dymuniadau i'r graddau y mae hynny'n bosib. Gall pobl ysgrifennu neu ddweud wrth eraill beth yw eu dymuniadau a'u teimladau a'r hyn y byddai'n well ganddynt ei weld yn digwydd o ran y driniaeth neu'r gofal y byddent yn ei dderbyn yn y dyfodol. Rhaid ystyried y datganiadau hyn wrth benderfynu beth sydd er pennaf les y person, ond nid ydynt yn rhwymo rhywun yn gyfreithiol yn yr un modd â phenderfyniad ymlaen llaw. Gall datganiadau o'r fath ofyn am fathau penodol o driniaethau, y mae'n rhaid eu hystyried yn ofalus, yn enwedig os ydynt wedi eu hysgrifennu. Fodd bynnag, nid yw'n angenrheidiol ichi gydymffurfio â'r cais pe na bai'r cais, yn gyffredinol, er pennaf les y person sydd ag anallu, neu os yw'r cais, ym marn broffesiynol y meddyg, yn ddiangen o safbwynt clinigol.

Gall y datganiadau hyn fod ynglŷn ag unrhyw beth, gan gynnwys yr hyn y byddai rhywun yn ei ffafrio'n bersonol, fel cael cawod yn hytrach na fath neu gysgu gyda golau. Fodd bynnag, ni all pobl ddefnyddio datganiadau o'r fath ynglŷn â'r hyn y byddent yn hoffi ei weld yn digwydd i ofyn i rywun arall ddod â'u bywyd i ben.

Enghraifft:

Mae gan Shahid gyflwr dirywiol. Mae'n awyddus i wneud yn siŵr os bydd yn colli ei allu meddyliol ac y bydd angen pobl i'w helpu â thasgau dyddiol, y byddant yn cydnabod ei draddodiadau diwylliannol. Mae felly'n ysgrifennu datganiad yn egluro'i ddaliadau crefyddol. Mae Shahid yn nodi ei fod yn dymuno i'r datganiad gael ei gadw gyda'i nodiadau meddygol fel ei fod, os bydd yn methu â gwneud neu gyfathrebu ei benderfyniadau ei hun yn y dyfodol, yn derbyn y gofal sy'n bodloni ei anghenion. Mae ei deulu'n gwybod y bydd y datganiad hwn yn helpu i sicrhau bod Shahid yn derbyn gofal priodol.

14. Amddiffyn pobl ag anallu rhag cael eu trin yn wael neu eu hesgeuluso'n fwriadol

O fis Ebrill 2007 mae'r Ddeddf yn cyflwyno trosedd newydd o drin unigolyn sydd ag anallu yn wael neu ei esgeuluso'n fwriadol. Nod hyn yw rhwystro pobl rhag cam-drin, trin yn wael neu esgeuluso'n fwriadol unigolion ag anallu. Gall unrhyw un a geir yn euog o'r trosedd gael dedfryd o garchar neu ddirwy.

Gallai hyn gynnwys atal rhywun yn afresymol yn erbyn ei ewyllys, peidio â darparu gofal digonol, a hefyd y mathau mwy cyffredin o gamdriniaeth yr ydym yn meddwl amdanynt, fel camdriniaeth ariannol, rywiol, gorfforol a seicolegol. Er bod y rhan fwyaf o'r bobl sy'n ymwneud â gofalu am bobl bregus yn gwbl ddibynadwy, dylai pawb fod yn effro i arwyddion o gamdriniaeth a chymryd camau ar fyrder i'w atal neu ei rwystro. Os ydych yn meddwl bod rhywun yn cam-drin eich ffrind neu'ch perthynas, yn ei drin yn wael neu'n ei esgeuluso gallwch gysylltu â'r heddlu neu'r gwasanaethau cymdeithasol.

15. Ymchwil

Mae ymchwil yn ffordd bwysig o'n galluogi i ddeall salwch ac anabledd a gwella'r gofal a'r gefnogaeth y mae pobl yn ei derbyn. Gallai hyn gynnwys profi pa mor effeithiol yw math penodol o ofal neu driniaeth wrth gefnogi'r rhai hynny a allai fod ag anallu, neu ddarganfod beth sydd wedi achosi cyflwr, er enghraifft, dementia. Ambell waith ni fydd y gwaith ymchwil hwn yn ddefnyddiol oni bai ei fod yn cynnwys pobl ag anallu meddyliol sydd wedi cytuno i gymryd rhan.

Mae'r Ddeddf yn caniatáu i waith ymchwil o'r fath gael ei gynnal ond mae'n nodi rheolau llym er mwyn amddiffyn pobl sydd ag anallu i benderfynu a ydynt am gymryd rhan yn yr ymchwil a gwneud yn siŵr bod sylw'n cael ei roi i'w hystyriaethau presennol neu eu hystyriaethau blaenorol. Mae'r rheolau hyn yn cynnwys y canlynol:

- Rhaid i Bwyllgor Moeseg Ymchwil annibynnol gytuno bod y gwaith ymchwil yn angenrheidiol ac yn ddiogel, ac na ellir ei wneud mewn ffordd arall gan ddefnyddio pobl sy'n gallu cydsynio i gymryd rhan yn yr ymchwil.
- Rhaid i ymchwilwyr siarad ag aelodau o'r teulu, partneriaid a gofalwyr eraill neu unrhyw berson perthnasol arall (fel atwrnai neu ddirprwy) ynglŷn ag a ddylid cynnwys yr unigolyn sydd ag anallu yn yr ymchwil. Os ydynt yn dweud na fyddai'r person sydd ag anallu yn dymuno bod yn rhan o'r ymchwil, yna ni ellir ei gynnal.
- Rhaid dod â'r ymchwil i ben os yw'r person sydd ag anallu'n dangos unrhyw arwydd nad yw'n fodlon bod yn rhan o'r ymchwil.
- Rhaid i fanteision posib cymryd rhan yn yr ymchwil fod yn fwy nag unrhyw risg neu niwed posib i'r person **neu** rhaid iddo helpu pobl eraill a hynny heb beri niwed na phryder i'r person.

16. Cwynion, anghydfodau a herio penderfyniadau

Mae'n bosib y bydd sefyllfaoedd pan fyddwch yn awyddus i herio penderfyniad neu lle bydd angen dod o hyd i ffordd o ddatrys anghydfod. Gallai hyn ddigwydd os ydych yn meddwl nad yw rhywun wedi ymgynghori â chi lle byddai hynny'n briodol, neu lle gwneir penderfyniad nad ydych yn meddwl ei fod er pennaf les eich cyfaill neu'ch perthynas. Gallech fod yn rhan o sefyllfaoedd lle mae anghytundeb, o bosib ymhlith aelodau o'r teulu neu rhwng teulu a gweithiwr proffesiynol, ynglŷn â phenderfyniad megis beth sydd er pennaf les person. Mae nifer o gamau y gallwch eu cymryd yn y sefyllfaoedd hyn.

- Gallai cynnwys eiriolydd annibynnol (nid Eiriolydd Gallu Meddyliol Annibynnol) a all helpu i wneud yn siŵr bod dymuniadau a theimladau'ch cyfaill neu'ch perthynas yn cael eu deall yn briodol helpu i ddatrys anghydfodau.
- Gwneud cwyn ffurfiol. Mae gan y GIG, awdurdodau lleol, cartrefi gofal gwirfoddol a phreifat i gyd brosesau cwyno ffurfiol. Os yw'ch cwyn yn ymwneud â'r GIG yna mae'n bosib y gallai'r PALS lleol eich helpu (Gwasanaeth Cyngor a Chyswllt i Gleifion). Yr asiantaeth gyfatebol yng Nghymru yw'r Cyngor Iechyd Cymuned lleol.
- Bydd Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus yn gallu cynnig cyngor a gwybodaeth ynglŷn ag anghydfodau dan y Ddeddf Gallu Meddyliol.
- Gall y Llys Gwarchod wneud penderfyniad os nad yw dulliau eraill yn addas. Efallai y byddech yn hoffi cael cymorth â hyn gan dwrnai neu ganolfan Cyngor Ar Bopeth.

17. Beth os ydw i am wybod mwy am y Ddeddf Gallu Meddyliol

Os hoffech wybod mwy am y Ddeddf Gallu Meddyliol cewch ffonio 0845 330 2900 neu e-bostio makingdecisions@dca.gsi.gov.uk

Mae ffynonellau eraill o wybodaeth ac arweiniad defnyddiol yn cynnwys:

Teitl	Ar gael o
Llyfrynnau gwybodaeth eraill fel hwn	Gallwch weld y rhain yn electronig drwy ymweld ag: www.dca.gov.uk/legal-policy/mental-capacity/publications.htm Neu gallwch anfon e-bost at reorder@inprintlitho.com er mwyn archebu copïau caled
Deddf Gallu Meddyliol 2005	Gallwch weld y Ddeddf yn rhad ac am ddim drwy ymweld ag: www.dca.gov.uk/legal-policy/mental-capacity/index.htm Neu gallwch archebu copi caled gan TSO drwy ffonio 0870 600 5522 neu anfon e-bost at customerservices@tso.co.uk
Y Côd Ymarfer ar gyfer y Ddeddf Gallu Meddyliol	Pan gyhoeddir y Côd gallwch ei lwytho oddi ar y we am ddim drwy fynd at y Ddeddf www.dca.gov.uk/legal-policy/mental-capacity/index.htm Gallwch archebu copi caled gan y Llyfrfa drwy ffonio 0870 600 5522 neu e-bostio customerservices@tso.co.uk.
Gwybodaeth am wasanaeth yr Eiriolydd Gallu Meddyliol Annibynnol, Cynlluniau Peilot Eiriolwyr Gallu Meddyliol Annibynnol a deunydd hyfforddiant ar gyfer Eiriolwyr Gallu Meddyliol Annibynnol	www.dh.gov.uk/imca

18. Rhai cysylltiadau defnyddiol

Mae adrannau canlynol y llywodraeth yn cydweithio i roi'r Ddeddf Gallu Meddyliol ar waith yn 2007

Adran	Beth ydyw / Beth mae'n ei wneud	Cysylltu
Yr Adran Materion Cyfansoddiadol (AMC)	Mae'r cyfrifoldebau'n cynnwys rhedeg y llysoedd a gwella'r system gyfiawnder, hawliau dynol, cyfraith hawliau gwybodaeth, polisi ar gynnal etholiadau a moderneiddio'r cyfansoddiad	Department for Constitutional Affairs, 5th Floor Steel House, 11 Tothill St, Llundain SW1H 9LH www.dca.gov.uk T 020 7210 0038/39 E makingdecisions@dca.gsi.gov.uk
Yr Adran Iechyd	Mae cyfrifoldebau'n cynnwys pennu polisi iechyd a gofal cymdeithasol yn Lloegr. Mae gwaith yr Adran yn gosod safonau ac yn hybu moderneiddio ar draws pob maes o'r GIG, gofal cymdeithasol ac iechyd cyhoeddus.	Wellington House, 133-155 Waterloo Road Llundain, SE1 3UG www.dh.gov.uk T 020 7210 4850
Y Swyddfa Gwarcheidwadaeth Gyhoeddus	Cangen weinyddol y Llys Gwarchod a rhan o'r Adran Materion Cyfansoddiadol. Mae'n darparu gwasanaethau diogelwch ariannol ar gyfer cleientiaid na allant reoli eu materion ariannol oherwydd eu hanallu.	Archway Tower, 2 unction Road Llundain, N19 5SZ www.guardianship.gov.uk T 0845 330 2900 E custserv@guardianship.gsi.gov.uk
Llywodraeth Cynulliad Cymru	Mae'r Cynulliad yn datblygu polisi ac yn cymeradwyo deddfwriaeth sy'n adlewyrchu anghenion pobl Cymru.	Parc Cathays, Caerdydd, CF19 3NQ www.wales.gov.uk T 029 2082 5111

Roedd y mudiadau canlynol wedi cyfrannu at ysgrifennu'r llyfryn hwn a chynghori arno

Sefydliad	Beth ydyw / Beth mae'n ei wneud	Cysylltu
Y Gynghrair Gwneud Penderfyniadau	Mae'n cynnwys: Action on Elder Abuse, Age Concern England, Alzheimers Concern Ealing, Cymdeithas Alzheimer, Sefydliad Beth Johnson, Carers UK, y Ganolfan Bolisi ar Heneiddio, Cloverleaf Advocacy, y Fforwm Defnyddwyr, Different Strokes, Cymdeithas Syndrom Down, y Sefydliad i Bobl sydd ag Anableddau Dysgu, Headway, Help the Aged, Clwb Gateway Horsham, y Gwasanaeth Eiriolaeth Annibynnol, Ymddiriedolaeth Awtistiaeth Caint, Leonard Cheshire, Mencap, Sefydliad Iechyd Meddwl, Mind, Cymdeithas Clefyd Niwronau Motor, y Gymdeithas Awtistiaeth Genedlaethol, Grwp Defnyddwyr Gogledd Swydd Stafford, Ymddiriedolaeth Oaklea, Patient Concern, Powerhouse, Cymdeithas Perthnasau a Phreswylwyr, Respond, Rethink, Cymdeithas Syndrom Rett, St Clements Patient Council, Scope, Sense, Skills for People, y Gymdeithas Strôc, Turning Point, United Response, WITNESS www.makingdecisions.org.uk	
Action for Advocacy	Asiantaeth adnoddau a chefnogaeth i'r sector eiriolaeth, gwybodaeth, hyfforddiant a chyngor	PO Box 31856, Lorrimore Square, Llundain, SE17 3XR www.actionforadvocacy.org
Age Concern	Mudiad mwyaf y DU sy'n gweithio i hyrwyddo lles pob unigolyn hŷn. Mae'n darparu gwasanaethau, gwybodaeth a chefnogaeth hanfodol i filoedd o bobl hŷn – o bob oed a chefndir	Astral House, 1268 London Road Llundain, SW16 4ER www.ageconcern.org.uk www.accymru.org.uk Llinell wybodaeth: 0800 00 99 66

Sefydliad	Beth ydyw / Beth mae'n ei wneud	Cysylltu
Cymdeithas Alzheimer	Prif elusen gofal ac ymchwil y DU ar gyfer pobl â dementia, eu teuluoedd a'u gofalwyr	Gordon House , 10 Greencoat Place Llundain, SW1P 1PH www.alzheimers.org.uk Llinell gymorth: 0845 300 0336
Cymdeithas Feddygol Prydain (BMA)	Mae'r BMA yn cynrychioli meddygon o bob cangen o feddygaeth ym mhob cwr o'r DU	MA House, Tavistock Square, Llundain WC1H 9JP www.bma.org.uk T 020 7387 4499 F 020 7383 6400
Carers UK	Yn gofalu am deuluoedd, partneriaid neu ffrindiau sydd angen cymorth oherwydd eu bod yn wael, yn fregus neu ag anabledd	20/25 Glasshouse Yard, Llundain, EC1A 4JT www.carersuk.org T 020 7566 7637 F 0207490 8824
Cymdeithas Syndrom Down	Mae'n darparu gwybodaeth a chefnogaeth ar gyfer pobl sydd â syndrom Down, eu teuluoedd a'u gofalwyr, yn ogystal â bod yn adnodd ar gyfer gweithwyr proffesiynol yn y maes	Langdon Down Centre, 2a Langdon Park Teddington, Middlesex, TW11 9PS www.dsa-uk.com T 0845 230 0372 F 0845 230 0373
Sefydliad i Bobl sydd ag Anableddau Dysgu	Mae'n gweithio gyda phobl ag anableddau dysgu, eu teuluoedd a'r rheini sy'n eu cefnogi i wella ansawdd eu bywyd a hyrwyddo hawliau, ansawdd bywyd a chyfleoedd pobl ag anableddau dysgu a'u teuluoedd	Sea Containers House, 20 Upper Ground Llundain, SE1 9QB www.learningdisabilities.org.uk T 020 7803 1100

Sefydliad	Beth ydyw / Beth mae'n ei wneud	Cysylltu
Headway – y gymdeithas anafiadau i'r ymennydd	Mae'n hybu dealltwriaeth o bob agwedd ar anafiadau i'r ymennydd; ac yn cynnig gwybodaeth, cefnogaeth a gwasanaethau i bobl sydd wedi dioddef anafiadau i'r ymennydd ac i'w teuluoedd a'u gofalwyr	4 King Edward Court Service , King Edward Street, Nottingham, NG1 1EW www.headway.org.uk T 0115 9240800 Llinell gymorth: 0808 800 2244
MENCAP	Elusen sy'n gweithio gyda phobl sydd ag anableddau dysgu, eu teuluoedd a'u gofalwyr	123 Golden Lane, Llundain, EC1Y ORT www.mencap.org.uk T 020 7454 0454
Y Sefydliad Iechyd Meddwl	Un o elusennau mwyaf blaenllaw'r DU sy'n darparu gwybodaeth, yn gwneud gwaith ymchwil, yn ymgyrchu ac yn gweithio er mwyn gwella gwasanaethau i unrhyw un y mae problemau iechyd meddwl yn effeithio arno, beth bynnag ei oed a lle bynnag y mae'n byw	Mental Health Foundation, Sea Containers House (yr un cyfeiriad â'r Sefydliad i Bobl sydd ag Anableddau Dysgu) www.mentalhealth.org.uk T 020 7803 1100
MIND	Y brif elusen iechyd meddwl, sy'n gweithio er mwyn cael bywyd gwell i bawb sydd â phrofiad o loes meddwl. Mae'n darparu gwybodaeth a chefnogaeth	15-19 Broadway, Stratford, Llundain E15 4BQ www.mind.org.uk Llinell wybodaeth: 0845 766 0163
Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth	Cymdeithas sy'n hyrwyddo hawliau a buddiannau pawb sydd ag awtistiaeth ac yn sicrhau eu bod hwy a'u teuluoedd yn derbyn gwasanaethau o safon uchel sy'n briodol i'w hanghenion	393 City Road, Llundain, EC1V 1NG www.autism.org.uk T 0845 070 4004 (llinell gymorth awtistiaeth)

Sefydliad	Beth ydyw / Beth mae'n ei wneud	Cysylltu
Y Rhwydwaith Cenedlaethol ar gyfer Teuluoedd sy'n Gofalu	Rhwydwaith sy'n darparu ffocws ar gyfer materion sy'n effeithio ar deuluoedd sy'n cynnwys oedolyn sydd ag anabledd dysgu	Merchants House, Wapping Road Bryste, BS1 4RW www.familycarers.org.uk T 0117 930 2600
Gwasanaeth Cenedlaethol Cefnogi Gofalwyr Teulu	Rhwydwaith sy'n darparu cefnogaeth a gwybodaeth i ofalwyr teulu	Merchants House, Wapping Road Bryste, BS1 4RW http://www.hft.org.uk/page15a.html T 0117 930 2608
Patient Concern	Mudiad sydd wedi ymrwymo i hyrwyddo dewis ac ymrymuster ar gyfer pawb sy'n defnyddio'r gwasanaeth iechyd. Mae'n darparu gwybodaeth i ddefnyddwyr gwasanaeth	PO Box 23732, Llundain SW5 9FY patientconcern@hotmail.com www.patientconcern.org.uk
Cymdeithas Perthnasau a Phreswylwyr	Mudiad ar gyfer pobl hŷn y mae angen gofal preswyl arnynt neu sy'n byw mewn gofal preswyl a'r teuluoedd a'r ffrindiau a adewir ar ôl. Mae'n cynnig cefnogaeth a gwybodaeth drwy linell gymorth	24 The Ivories, 6-18 Northampton Street Llundain, N1 2HY www.relres.org Llinell Gymorth: 020 7359 8136
RESCARE	Y gymdeithas genedlaethol ar gyfer plant ac oedolion sydd ag anableddau dysgu a'u teuluoedd	Steven Jackson House, 31 Buxton Road Heaviley, Stockport SK2 6LS www.rescare.org.uk T 0161 474 7323

Sefydliad	Beth ydyw / Beth mae'n ei wneud	Cysylltu
RESPOND	Mae'n darparu amrywiaeth o wasanaethau ar gyfer y rheini sydd ag anableddau dysgu a'r rheini y mae trawma arall wedi effeithio arnynt ac sydd wedi cael eu cam-drin yn rhywiol neu sydd wedi cam-drin eraill yn rhywiol. Mae eu gwasanaethau'n ymestyn i gefnogaeth a hyfforddiant ar gyfer teuluoedd, gofalwyr a gweithwyr proffesiynol.	3rd Floor, 24-32 Stephenson Way Llundain, NW1 2HD T 020 7383 0700 F 020 7387 1222 www.respond.org.uk Llinell gymorth: 0808 808 0700
Scope	Sefydliad anabledd yng Nghymru a Lloegr, sy'n canolbwyntio ar bobl sydd â pharlys yr ymennydd	6 Market Road, Llundain, N7 9PW www.scope.org.uk T 020 7619 7100
Sense	Elusen sy'n darparu gwybodaeth, cyngor a gwasanaethau arbenigol i bobl ddall a byddar, eu teuluoedd, gofalwyr a'r gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda hwy. Mae'r elusen yn cael ei hariannu i ddatblygu deunydd hyfforddiant sy'n rhoi sylw i faterion eiriolaeth ar gyfer pobl ddall a byddar	11-13 Clifton Terrace, Finsbury Park Llundain N4 3SR www.sense.org.uk T 0845 127 0060 F 0845 127 0061 Testun 0845 127 0062

Sefydliad	Beth ydyw / Beth mae'n ei wneud	Cysylltu
Turning Point	Turning Point yw prif sefydliad gofal cymdeithasol y DU. Mae'n darparu gwasanaethau i bobl sydd ag anghenion cymhleth, gan gynnwys y rhai hynny sy'n cael eu heffeithio gan gamddefnyddio cyffuriau ac alcohol, a phroblemau iechyd meddwl a phobl sydd ag anabledd dysgu	New Loom House, 101 Backchurch Lane Llundain E1 1LU www.turning-point.co.uk T 020 7702 2300
United Response	Sefydliad cenedlaethol sy'n creu cyfleoedd a gwasanaethau gyda phobl sydd ag anawsterau dysgu a phobl sydd â phroblemau iechyd meddwl	113 – 123 Upper Richmond Road, Putney Llundain SW15 2TL www.unitedresponse.org.uk T 020 8246 5200 F 020 8780 9538 Minicom: 020 8785 1706

Mae'r llyfrynnau eraill sydd yn y gyfres hon yn cynnwys:

1 Gwneud penderfyniadau ynglyn â'ch iechyd, eich lles neu'ch arian. Pwy fydd yn penderfynu pan fyddwch chi'n methu?

3 Gwneud penderfyniadau. Arweiniad i bobl sy'n gweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol

4 Gwneud penderfyniadau. Arweiniad i weithwyr cynghori

5 Gwneud penderfyniadau. Canllaw Hawdd i'w Ddarllen

Mae'r llyfrynnau hyn ar gael yn Saesneg hefyd a gellir eu darparu mewn fformatau eraill ar gais. I archebu:

T 020 80 878038 neu 023 80 878036
F 023 80 528324
E reorder@inprintlitho.com

Mae'r llyfrynnau hefyd ar gael ar-lein yn
www.dca.gov.uk/legal-policy/mental-capacity/publications.htm

Cyhoeddwyd y llyfryn hwn gan y Rhaglen Weithredu Gallu Meddyliol. Cafodd ei ysgrifennu gan Turning Point, Sense, Cymdeithas Alzheimer ac Age Concern sy'n aelodau o'r Gynghrair Gwneud Penderfyniadau.

2il argraffiad Chwefror 2007

© Hawlfraint y Goron 2006